

## Dyfarniad Pearson BTEC Lefel 1/Lefel 2 Cyntaf

# Celf a Dylunio

## Uned 2: Prosiect Creadigol mewn Celf a Dylunio

**2016**

**Amser: Datblygu portffolio o astudiaethau ategol: 20 awr**

**Deiliant (deilliannau) terfynol: 10 awr**

Cyfeirnod y Papur

**21913G**

**Nid oes angen unrhyw ddeunyddiau eraill arnoch.**

### Cyfarwyddiadau i ganolfannau

- Mae'r papur hwn ar gael ar wefan Pearson [www.BTEC.co.uk](http://www.BTEC.co.uk) o Ionawr 2016.
- Mae rhyddid i ganolfannau ddyfeisio eu cyfnod astudio paratoadol eu hunain (20 awr dros nifer o wythnosau) cyn y cyfnod 10 awr o weithio o dan amodau rheoledig i gynhyrchu'r deiliant terfynol.
- Rydym yn argymhell yn gryf bod y papur cyfan hwn yn cael ei roi i ddysgwyr.

*Trowch y dudalen* ►

**W52564A**

©2016 Pearson Education Ltd.

1/1/



**PEARSON**

## Gwybodaeth i ddysgwyr

### Dylech:

- darllen y wybodaeth hon cyn dechrau ar y briff ar gyfer eich llwybr dewisol
- cyfeirio at y cyfarwyddiadau hyn wrth i chi gwblhau'r gwaith ar gyfer yr uned hon
- dewis briff o'ch llwybr dewisol.

### Datblygu portffolio o astudiaethau cefnogol

Darllenwch y briff a meddylwch am y broblem greadigol mae angen ei datrys. Mae 20 awr o amser dysgu dan arweiniad gennych chi i baratoi ar gyfer eich deiliant terfynol. Gall yr 20 awr hyn gael eu hymestyn dros nifer o wythnosau neu fisoedd.

### Ymchwiliwch i:

- beth mae'r cleient yn disgwyl i chi ei wneud ar gyfer y briff
- amrywiaeth o ffynonellau cynradd ac eilaidd sy'n briodol i'r llwybr rydych chi wedi'i ddewis
- gwaith artistiaid neu ddylunwyr sy'n perthyn i'ch syniadau eich hun mewn ymateb i'r thema. Mae rhestr o adnoddau awgrymedig i'w chael yn yr adran Adnoddau
- materion byd-eang, amgylcheddol, ecolegol, diwylliannol a chymdeithasol sy'n gysylltiedig â'r thema.

### Datblygwch:

- syniadau o'ch gwaith ymchwil
- cynllun gwaith ar gyfer y 10 awr terfynol.

### Adolygwch:

- cynnydd, cynlluniau, syniadau, prosesau gwaith ac unrhyw newidiadau wrth i chi ddatblygu eich gwaith.

### Gwerthuswch:

- y syniadau, y defnyddiau, y prosesau a'r technegau rydych chi wedi'u dewis mewn perthynas â'r briff.

**Bydd eich athro/athrawes yn gallu'ch helpu wrth i chi baratoi'ch ymateb personol i'r briff. Mae'n rhaid i chi siarad â'ch athro/athrawes am y defnyddiau a'r prosesau rydych chi'n bwriadu eu defnyddio yn ystod y 10 awr terfynol.**

## Deilliant terfynol

- Mae gennych chi 10 awr i gynhyrchu eich deilliant terfynol, gan ddefnyddio'r elfennau gweledol, y defnyddiau, y technegau a'r prosesau rydych chi wedi'u dewis.
- Byddwch chi'n gweithio o dan amodau arholiad dan oruchwyliaeth, fel arfer yn eich ystafell celf a dylunio.
- Dylech gyfeirio at eich gwaith paratoi a'ch astudiaethau cefnogol yn ystod y 10 awr terfynol.
- Yn ystod y 10 awr terfynol, ni fydd y goruchwylwr yn gallu siarad â chi am eich syniadau creadigol, dim ond rhoi cyngor a chefnogaeth dechnegol i chi yn gysylltiedig â defnyddiau, technegau a phrosesau, e.e. paratoi darnau ceramig i'w tanio, defnyddio cemegau yn yr ystafell dywyll, defnyddio peiriant gwnïo a pheiriant gorffennu.

Ar y tudalennau sy'n dilyn, mae themâu a briffiau ynghyd â disgwiliadau'r cleient. Rhaid i chi ddewis **UN** o'r rhain er mwyn cwblhau eich gwaith ar gyfer yr uned hon.

## Llwybrau

### Crefftau Dylunio



Y thema ar gyfer Crefftau Dylunio yw '**Grym Blodau (Flower Power)**'.

Mae dylunwyr a gwneuthurwyr yn aml yn defnyddio blodau a motiffau blodeuog i gael ysbrydoliaeth a syniadau. Maen nhw'n edrych ar y nodweddion gweledol, y siapiau, y lliwiau a'r patrymau ac yn cymryd elfennau o'r rhain i ddylanwadu ar eu meddwl.

Roedd motiffau blodeuog wedi dylanwadu'n arbennig ar y mudiad *Art Nouveau*, a ddechreuodd tua diwedd y 19eg ganrif. Gallwch ymchwilio i gelf Japaneaidd, Charles Rennie Mackintosh a William Morris, a chwmnïau fel Liberty, Sanderson a Cath Kidston. Mae'r 1960au yn enwog am fod yn gyfnod pan ddaeth blodau'n elfen ddylunio amlwg mewn ffasiwn, crefftau, graffeg a thecstilau, sef 'grym blodau' (*flower power*) yn ôl llawer, ac rydym wedi gweld dyluniadau a motiffau blodeuog yn cael eu defnyddio'n barhaus tan heddiw.

### Beth bydd angen i chi ei gynhyrchu

Mae adwerthwr mawr gyda siop flaenllaw mewn canol dinas eisiau defnyddio thema '**Grym Blodau**' i gysylltu'r cynhyrchion mewn adrannau gwahanol ac ar gyfer arddangosfeydd cysylltiedig yn y ffenestri. Mae'n gwahodd dylunwyr i gyflwyno'u cynigion, syniadau a samplau ar gyfer eitemau crefft dylunio fydd yn cael eu gwerthu neu eu harddangos yn y siop.

Mae eisiau gweld steil, eiconau a dylanwadau thema '**Grym Blodau**' yn cael eu defnyddio ac mae'n disgwyl gweld agweddau cyfoes ar ddulliau traddodiadol, gyda dyluniadau gwreiddiol yn hytrach na chopio.

Dylech ddatblygu syniadau a dyluniadau mewn ymateb i friff y cleient, gan ddefnyddio'ch ymchwil gynradd eich hun i thema '**Grym Blodau**'. Dylech gyfeirio at ddefnyddiau, technegau a phrosesau arbenigol ac elfennau fel: lliw, llinell, gwead (*texture*), addurn, patrwm, ffurf a swyddogaeth (*function*).

Mae'r cleient yn disgwyl gweld sut rydych chi wedi defnyddio eich ymchwil i ddatblygu dyluniadau a syniadau, gan gynnwys *maquettes*, brasfodelau neu brototeipiau ar gyfer **un** o'r canlynol.

1. Set o emwaith cydwedd neu ddarn unigol o addurn personol allai gael ei werthu yn yr adran gemwaith neu ei wisgo gan gynorthwywyr gwerthu o gwmpas y siop.
2. Darn 3D i'w arddangos yn ffenestr y siop; gall hwn fod yn addurnol neu'n ymarferol.
3. Eitem a wnaed â llaw, sy'n gallu cael ei gwisgo, fel penwisg neu esgidiau.

### **Dylai eich ymchwil ganolbwyntio ar:**

- ddisgwyliadau'r cleient
- ffynonellau cynradd ac eilaidd mewn ymateb i thema '**Grym Blodau**'
- artistiaid, dylunwyr a gwneuthurwyr sydd wedi defnyddio '**Grym Blodau**' neu themâu tebyg fel eu hysbrydoliaeth a'u hysgogiad.

### **Disgwyliadau'r cleient**

Mae'n rhaid i'r gwaith rydych chi'n ei gynhyrchu ateb disgwyliadau'r cleient. Bydd y cleient eisiau gwybod sut rydych chi wedi mynd i'r afael â'r cwestiynau canlynol.

- Beth yw eich ymateb i'r thema ac i gyfyngiadau'r briff?
- Sut rydych chi wedi defnyddio eich ymchwil gynradd ac eilaidd i ddatblygu syniadau?
- Sut gwnaethoch chi ddefnyddio iaith weledol i ddatblygu eich syniadau a'ch deilliannau?
- Sut mae eich dyluniadau yn targedu'r gynulleidfa fwriadedig?
- A yw eich dyluniadau yn addas i'w diben?
- Pa ddefnyddiau, technegau a phrosesau rydych chi wedi eu dewis a'u defnyddio?
- Sut byddwch chi'n cyflwyno eich gwaith i'r cleient?

## Ffasiwn a Thecstilau



Y thema ar gyfer Ffasiwn a Thecstilau yw '**Grym Blodau (Flower Power)**'.

Mae dylunwyr, gwneuthurwyr a chrefftwyr wedi defnyddio dylanwadau blodeuog yn eu gwaith yn ddiweddar ac yn hanesyddol. Er enghraifft, roedd motiffau blodeuog wedi dylanwadu'n arbennig ar y mudiad *Art Nouveau*, a ddechreuodd tua diwedd y 19eg ganrif.

Roedd y 1960au yn gyfnod pan oedd dylunwyr yn defnyddio blodau'n elfen ddylunio amlwg mewn ffasiwn, crefftau, graffeg a thecstilau, sef 'grym blodau' (*flower power*) yn ôl llawer. Rydym wedi gweld dyluniadau a motiffau blodeuog yn cael eu defnyddio'n barhaus tan heddiw, er enghraifft yng ngwaith dylunwyr cyfoes fel Cath Kidston.

Roedd casgliad haf Wythnos Ffasiwn 2014 yn llawn delweddau blodeuog ac ysgrifennodd adolygwr (*reviewer*) ar gyfer [www.fashionbeans.com](http://www.fashionbeans.com) fod '*Blodau i'w gweld yn amlwg ar draws pob prif wythnos ffasiwn, gyda mwyafrif y casgliadau yn ymgorffori rhyw ffurf ar y print. Roedd dylunwyr fel Dries Van Noten, Gucci ac Alexander McQueen yn ddigon mentrus i greu gweddau blodeuog o'r coryn i'r sawdl (head-to-toe floral looks).*'

### Beth bydd angen i chi ei gynhyrchu

Mae adwerthwr mawr sydd â siop yng nghanol y ddinas eisiau defnyddio thema '**Grym Blodau**' i gysylltu'r cynhyrchion mewn nifer o adrannau ac ar gyfer arddangosfeydd cysylltiedig yn ffenestri ei siop. Mae'n gwahodd dylunwyr i gyflwyno eu cynigion, syniadau a samplau ar gyfer eitemau fydd yn cael eu gwerthu neu eu harddangos yn y siop.

Mae eisiau i steil, eiconau a dylanwadau thema '**Grym Blodau**' fod yn elfen fwyaf weledol y gwaith, ac mae'n disgwyl gweld agweddau cyfoes ar ddulliau traddodiadol, gyda dyluniadau gwreiddiol yn hytrach na chopio.

Dylech ddatblygu syniadau a dyluniadau mewn ymateb i friff y cleient, gan ddefnyddio eich ymchwil gynradd i thema '**Grym Blodau**'. Dylech gyfeirio at ddefnyddiau, technegau a phrosesau arbenigol ac elfennau fel: lliw, llinell, gwriad (*texture*), addurn, patrwm, ffurf a swyddogaeth (*function*).

Trwy weithio'n bennaf o ffynonellau cynradd ac ymchwil eilaidd, mae'r cleient eisiau i chi ddylunio a datblygu syniadau ar gyfer **un** o'r canlynol.

1. Yn seiliedig ar ddelweddau blodeuog, dyluniwch gasgliad o ddillad haf ar gyfer cwsmeriaid gwrywaidd neu fenywaidd 15 i 18 oed. Dangoswch ddyluniadau o gefn a blaen y gwisgoedd, a chynhyrchwch fwrdd hwyliu a samplau i ddangos cryfderau, dylanwadau a manylion dylunio'r thema. Dylai eich dyluniadau gorau gael eu datblygu fel sampl chwarter maint neu ddilledyn maint llawn.

2. Cynhyrchwch ddarn tecstil, allai fod yn ddarn hongian neu'n osodiad 2D neu 3D i'w arddangos ym mwyty'r siop.
3. Addaswch ddilledyn presennol, gan ddefnyddio delweddu, gweddau, technegau a phrosesau sy'n galw i gof ac yn adlewyrchu'r elfennau gweledol wedi'u darganfod yn eich ymchwil gynradd ac eilaidd.

#### **Dylai eich ymchwil ganolbwyntio ar:**

- ddisgwyliadau'r cleient
- ffynonellau cynradd ac eilaidd mewn ymateb i thema '**Grym Blodau**'
- artistiaid, dylunwyr a gwneuthurwyr sydd wedi defnyddio '**Grym Blodau**' neu themâu tebyg fel eu hysbrydoliaeth a'u hysgogiad.

#### **Disgwyliadau'r cleient**

Mae'n rhaid i'r gwaith rydych chi'n ei gynhyrchu ateb disgwyliadau'r cleient. Bydd y cleient eisieu gwybod sut rydych chi wedi mynd i'r afael â'r cwestiynau canlynol.

- Beth yw eich ymateb i'r thema ac i gyfyngiadau'r briff?
- Sut rydych chi wedi defnyddio eich ymchwil gynradd ac eilaidd i ddatblygu syniadau?
- Sut gwnaethoch chi ddefnyddio iaith weledol i ddatblygu eich syniadau a'ch deilliannau?
- Sut mae eich dyluniadau yn targedu'r gynulleidfa fwriadedig?
- A yw eich dyluniadau yn addas i'w diben?
- Pa ddefnyddiau, technegau a phrosesau rydych chi wedi eu dewis a'u defnyddio?
- Sut byddwch chi'n cyflwyno eich gwaith i'r cleient?

## Ffotograffiaeth



Y thema ar gyfer Ffotograffiaeth yw '**Adlewyrchu Eich Byd**'.

Mae celf a dylunio yn aml yn perthyn yn gryf i ranbarth neu leoliad penodol. Gall gael ei seilio ar agweddau ar le, neu ei osod mewn lleoliad penodol. Mae ffotograffiaeth dda yn denu sylw a gall gael ei defnyddio i adlewyrchu ac ychwanegu at gymeriad ac enw da rhanbarth. Mae llawer o ffotograffwyr yn enwog am eu gwaith sy'n perthyn yn gryf i leoliad, tref neu ranbarth, fel Verity Milligan o Birmingham, Rob Cartwright o Glasgow a David Gutierrez o Lundain.

### Beth bydd angen i chi ei gynhyrchu

Mae awdurdod twristiaeth eisiau codi ymwybyddiaeth o nodweddion arbennig yn ei ranbarth trwy brosiect ffotograffiaeth. Mae eisiau pwyslais cryf ar hanes, tirwedd, diwydiant, mwynderau (*amenities*) neu bensaernïaeth, ac i gyfleu'r syniadau hynny i gynulleidfa ehangach. Hefyd, mae'r cleient eisiau gweld rhai adlewyrchiadau go iawn ym mhob ffotograff.

Mae'r awdurdod twristiaeth yn gwahodd ffotograffwyr i ymchwilio i agweddau ar eich rhanbarth, a thynnu ffotograffau sy'n gallu cael eu dangos a'u dosbarthu mewn gwahanol ffyrdd i godi lefel y diddordeb yn yr ardal, denu busnesau newydd a chynyddu nifer yr ymwelwyr a'r twristiaid.

Dylech ddatblygu syniadau a delweddau mewn ymateb i friff y cleient a'ch ymchwil eich hun ar y thema '**Adlewyrchu Eich Byd**'. Dylech gyfeirio at ddefnyddiau, technegau a phrosesau arbenigol ac elfennau fel: cyfansoddiad, golau, dilyniant, cyferbyniad, lliw, llinell, gwead (*texture*), addurn, patrwm, ffurf a swyddogaeth (*function*).

Mae'r cleient eisiau i chi ddylunio a datblygu syniadau ar gyfer **un** o'r canlynol.

1. Cyfres o 12 delwedd, wedi'u cyflwyno naill ai ar ffurf ddigidol neu wedi'u hargraffu, yn ymateb i'r thema, '**Adlewyrchu Eich Byd**'. Mae gwaith traddodiadol mewn ystafell dywyll yn cael ei groesawu, fel y mae gwaith sy'n gyfan gwbl ddigidol.
2. Cynhyrchwch gyfres o ddelweddau ar gyfer gwefan, cyflwyniad amlgyfrwng neu ffilm fer. Mae'r cleient eisiau gweld delweddau enghreifftiol ar wefan, neu ran o'r darn amlgyfrwng neu'r ffilm.
3. Cyfres o 10 cerdyn post ffotograffig, sy'n mynegi'r thema, wedi'u cyflwyno mewn pecyn. Mae'n rhaid i chi hefyd ddylunio a chynhyrchu pecyn syml ar gyfer y cardiau post.



### **Dylai eich ymchwil ganolbwyntio ar:**

- disgwyliadau'r cleient
- ffynonellau cynradd ac eilaidd mewn ymateb i thema '**Adlewyrchu Eich Byd**'
- artistiaid, dylunwyr a ffotograffwyr sydd wedi defnyddio '**Adlewyrchu Eich Byd**' neu themâu tebyg fel eu hysbrydoliaeth a'u hysgogiad.

### **Disgwyliadau'r cleient**

Mae'n rhaid i'r gwaith rydych chi'n ei gynhyrchu ateb disgwyliadau'r cleient. Bydd y cleient eisiau gwybod sut rydych chi wedi mynd i'r afael â'r cwestiynau canlynol.

- Beth yw eich ymateb i'r thema ac i gyfyngiadau'r briff?
- Sut rydych chi wedi defnyddio eich ymchwil gynradd ac eilaidd i ddatblygu syniadau?
- Sut gwnaethoch chi ddefnyddio iaith weledol i ddatblygu eich syniadau a'ch deilliannau?
- Sut mae eich dyluniadau yn targedu'r gynulleidfa fwriadedig?
- A yw eich dyluniadau yn addas i'w diben?
- Pa ddefnyddiau, technegau a phrosesau rydych chi wedi eu dewis a'u defnyddio?
- Sut byddwch chi'n cyflwyno eich gwaith i'r cleient?

Cofiwch fod rhaid i bob un o'ch ffotograffau terfynol gynnwys adlewyrchiadau go iawn.

## Dylunio Cynnyrch



Y thema ar gyfer Dylunio Cynnyrch yw **'Tutti Frutti'**.

Ystyr yr ymadrodd Eidaleg hwn yw 'pob ffrwyth' ac mae'n gysylltiedig â chymysgeddau o ffrwythau, cynhwysion trofannol, cyfuniadau amryliw a blasau hyfryd. Hefyd, gall olygu cymysgedd neu gyfuniad o elfennau neu goctel o gynhwysion. Mae'n awgrymu cymysgedd o ffrwythau a lliwiau, a'r ymdeimlad cyffredinol o gynnyrch deniadol a hudolus, gydag ymdeimlad o hwyl ac amrywiaeth.

### Beth bydd angen i chi ei gynhyrchu

Mae bar sudd (*juice bar*) newydd o'r enw Tutti Frutti yn agor mewn canolfan siopa. Mae manau gwerthu bwyd a diod bob amser yn cystadlu â'i gilydd, ac felly mae angen i'r perchenogion greu amgylchedd sy'n ffraeth, yn gellweirus, yn gyffrous ac yn unigryw yn weledol, a fydd yn denu cwsmeriaid ac yn ddigon cofiadwy fel eu bod yn galw heibio eto.

Maen nhw'n gwahodd dylunwyr i ddatblygu a chyflwyno eu syniadau ar gyfer agweddau penodol ar y bar sudd. Maen nhw'n chwilio am ddyluniadau fydd yn cyfleu hwyl, ffresni, blas a ffordd iach o fyw.

Dylech ddatblygu syniadau a dyluniadau mewn ymateb i friff y cleient a'ch ymchwil eich hun ar y thema **'Tutti Frutti'**. Dylech gyfeirio at ddefnyddiau, technegau a phrosesau arbenigol ac elfennau fel ffurf a swyddogaeth (*function*), lliw, llinell, gwriad (*texture*), addurn a phatrwm.

Mae'r cleient eisiau i chi ddylunio a datblygu syniadau ar gyfer **un** o'r canlynol.

1. Cynigion dylunio ar gyfer tu mewn a thu allan y bar sudd. Dylai'r rhain gynnwys modelau 2D a 3D, bwrdd hwyliu a samplau o arwynebau a defnyddiau arfaethedig.
2. Cynigion dylunio ar gyfer cynwysyddion (*containers*) i ddal ac arddangos tri math o ffrwyth gwahanol cyn cael y sudd ohonynt. Rhaid i'ch dyluniadau gael eu seilio ar ymchwil gynradd ac eilaidd, gan ddefnyddio siâp, lliw, patrwm a gwriad ffrwythau. Mae'r cleient eisiau gweld model neu frasfodel 3D.
3. Cynigion dylunio, lluniadau a dalenni dylunio ar gyfer golau i'w osod ar y nenfwd, a golau cydwedd (*related*) i'w osod ar y wal. Os byddwch chi'n gwneud model wrth raddfa neu brototeip gweithio, dim ond bylbiau sy'n rhedeg ar fatris dylech chi eu defnyddio.

### **Dylai eich ymchwil ganolbwyntio ar:**

- disgwyliadau'r cleient
- ffynonellau cynradd ac eilaidd mewn ymateb i thema '**Tutti Frutti**'
- artistiaid, dylunwyr a gwneuthurwyr sydd wedi defnyddio '**Tutti Frutti**' neu themâu tebyg fel eu hysbrydoliaeth a'u hysgogiad.

### **Disgwyliadau'r cleient**

Mae'n rhaid i'r gwaith rydych chi'n ei gynhyrchu ateb disgwyliadau'r cleient. Bydd y cleient eisiau gwybod sut rydych chi wedi mynd i'r afael â'r cwestiynau canlynol.

- Beth yw eich ymateb i'r thema ac i gyfyngiadau'r briff?
- Sut rydych chi wedi defnyddio eich ymchwil gynradd ac eilaidd i ddatblygu syniadau?
- Sut gwnaethoch chi ddefnyddio iaith weledol i ddatblygu eich syniadau a'ch deilliannau?
- Sut mae eich dyluniadau yn targedu'r gynulleidfa fwriadedig?
- A yw eich dyluniadau yn addas i'w diben?
- Pa ddefnyddiau, technegau a phrosesau rydych chi wedi eu dewis a'u defnyddio?
- Sut byddwch chi'n cyflwyno eich gwaith i'r cleient?

## Celfyddydau Gweledol



Y thema ar gyfer y Celfyddydau Gweledol yw '**Adlewyrchu Eich Byd**'.

Mae celfyddyd weledol yn aml yn cael ei chreu er mwyn ei gosod mewn lleoliad penodol. Mae darn o waith sy'n cael ei ddylunio'n wreiddiol ar gyfer safle penodol, fel Pabïau Tŵr Llundain neu Angel y Gogledd, yn gallu denu cyhoeddusrwydd rhyngwladol, gan adlewyrchu ac ychwanegu at gymeriad ac enw da ardal.

Mae artistiaid sydd wedi creu gwaith wedi'i ysbrydoli gan ardal benodol, neu waith y mae ardal benodol wedi dylanwadu arno, wedi ennill cydnabyddiaeth rhyngwladol, yn ogystal â'r lleoliadau cysylltiedig. Mae enghreifftiau'n cynnwys Angel y Gogledd gan Antony Gormley, Trên Brics David Mach ger Darlington, paentiadau L. S. Lowry o Salford, tŵr ArcelorMittal Orbit a osodwyd ar gyfer Gemau Olympaidd Llundain 2012 gan Anish Kapoor a Cecil Balmond a Tom Piper, a'r gwaith diweddar Tiroedd Gwaed a Môr o Goch gan Paul Cummins yn Nhŵr Llundain.

### **Beth bydd angen i chi ei gynhyrchu**

Mae cwmni menter lleol yn gwahodd artistiaid i ymchwilio i agweddau ar ranbarth a chreu syniadau ar gyfer darnau o waith celf i'w harddangos mewn safleoedd penodol a lleoliadau allweddol.

Dylech ddatblygu syniadau a dyluniadau mewn ymateb i friff y cleient a'ch ymchwil eich hun ar thema '**Adlewyrchu Eich Byd**'.

Dylech gyfeirio at ddefnyddiau, technegau a phrosesu arbenigol ac elfennau fel: lliw, llinell, arwyneb, strwythur, patrwm, a ffurf a swyddogaeth (*function*).

Mae'r cleient eisiau i chi ddylunio a datblygu syniadau ar gyfer **un** o'r canlynol.

1. Darn 2D mewn ymateb i'r thema. Gallai hwn fod ar ffurf paentiad, print, murlun neu *collage*. Mae'r cleient eisiau gweld sut byddai'r gwaith arfaethedig yn edrych yn ei leoliad terfynol, ac felly mae'n rhaid i chi ystyried sut byddech chi'n cyflwyno hyn i'r cleient.
2. Darn mewn cyfrwng digidol yn seiliedig ar y thema, a allai fod yn animeiddiad, gosodiad (*installation*), tafluniad (*projection*) neu ffilm fer.
3. Darn 3D, yn adlewyrchu'r thema, a allai fod ar ffurf cerflun, gosodiad neu ddarn cerfweddol (*relief piece*). Mae'r cleient eisiau gweld sut byddai'r gwaith yn edrych yn ei leoliad terfynol, ac felly mae'n rhaid i chi gynhyrchu brasfodel neu *maquette* wrth raddfa mewn cyd-destun realistig.

### **Dylai eich ymchwil ganolbwyntio ar:**

- disgwyliadau'r cleient
- ffynonellau cynradd ac eilaidd mewn ymateb i thema '**Adlewyrchu Eich Byd**'
- artistiaid a dylunwyr sydd wedi defnyddio '**Adlewyrchu Eich Byd**' neu themâu tebyg fel eu hysbrydoliaeth a'u hysgogiad.

### **Disgwyliadau'r cleient**

Mae'n rhaid i'r gwaith rydych chi'n ei gynhyrchu ateb disgwyliadau'r cleient. Bydd y cleient eisiau gwybod sut rydych chi wedi mynd i'r afael â'r cwestiynau canlynol.

- Beth yw eich ymateb i'r thema ac i gyfyngiadau'r briff?
- Sut rydych chi wedi defnyddio eich ymchwil gynradd ac eilaidd i ddatblygu syniadau?
- Sut gwnaethoch chi ddefnyddio iaith weledol i ddatblygu eich syniadau a'ch deilliannau?
- Sut mae eich dyluniadau yn targedu'r gynulleidfa fwriadedig?
- A yw eich dyluniadau yn addas i'w diben?
- Pa ddefnyddiau, technegau a phrosesau rydych chi wedi eu dewis a'u defnyddio?
- Sut byddwch chi'n cyflwyno eich gwaith i'r cleient?

## Cyfathrebu Gweledol



Y thema ar gyfer Cyfathrebu Gweledol yw **'Tutti Frutti'**.

Ystyr yr ymadrodd Eidaleg hwn yw 'pob ffrwyth' ac mae'n gysylltiedig â chymysgeddau o ffrwythau, cynhwysion trofannol, cyfuniadau amryliw a blasau hyfryd. Hefyd, gall olygu cymysgedd neu gyfuniad o elfennau neu goctel o gynhwysion. Mae'n awgrymu cymysgedd o ffrwythau a lliwiau, a'r ymdeimlad cyffredinol o gynnyrch deniadol a hudolus, gydag ymdeimlad o hwyl ac amrywiaeth.

### Beth bydd angen i chi ei gynhyrchu

Mae archfarchnad fawr yn lansio dewis (*range*) o sudd ffrwythau a smwddis pur 'ei brand ei hun' heb unrhyw ychwanegion, melysyddion na lliwiau artiffisial. Dyma faes gwerthu cystadleuol iawn, ac felly mae angen i'r archfarchnad greu cynnyrch sy'n wahanol iawn i'r cystadleuwyr. Mae'r archfarchnad wedi rhoi'r enw 'Tutti Frutti' ar y dewis o gynhyrchion a bydd gan y rhain gyfuniadau newydd o ffrwythau, lliwiau cyferbyniol a phwyslais ar y fitaminau yn y cynhyrchion. Y farchnad darged yw siopwyr sy'n ofalus o'u hiechyd ac sy'n barod i roi cynnig ar rywbeth gwahanol. I helpu i werthu'r sudd, mae'r archfarchnad yn cyflwyno cynhyrchion cysylltiedig a deunydd hyrwyddo. Adran werthu'r archfarchnad yw'r cleient ac mae eisiau cael thema weledol gyson a golwg bendant ar y silff (*a strong shelf identity*).

Dylech ddatblygu syniadau a dyluniadau mewn ymateb i friff y cleient a'ch ymchwil eich hun ar y thema **'Tutti Frutti'**. Dylech gyfeirio at ddefnyddiau, technegau a phrosesau arbenigol ac elfennau fel: gosodiad (*layout*), teipograffeg, lliw, llinell, gwedd (*texture*), addurn, patrwm, ffurf a swyddogaeth (*function*).

Mae'r cleient eisiau i chi ddylunio a datblygu syniadau ar gyfer **un** o'r canlynol.

1. Dyluniwch graffeg y pecynnau ar gyfer dewis o bedwar o gynhyrchion sudd a smwddis pur. Bydd y rhain yn cael eu gwerthu mewn cynwysyddion maint safonol un litr a chynwysyddion llai o faint 250 ml. Mae'r cleient eisiau gweld brasfodelau maint llawn ac efelychiad (*simulation*) o'r dewis fel pe bai 'ar y silff'.
2. Dyluniwch glawr a thaeniad dwbl ar gyfer cylchgrawn am ddim yn hyrwyddo'r brand Tutti Frutti. Gallai'r rhain gynnwys ryseitiau, gwybodaeth gefndir am fitaminau a manteision i iechyd, a gwledydd tyfu'r ffrwythau. Dylech ystyried lluniadau, darluniadau a ffotograffau o ffrwythau, a chyfuniad o destun a delweddau. Dylech weithio ar sail tudalennau maint A4.
3. Dyluniwch dudalennau sampl ar gyfer gwefan am y brand Tutti Frutti sy'n archwilio gwledydd tyfu'r ffrwythau, y manteision i iechyd ac sy'n awgrymu ryseitiau.

### **Dylai eich ymchwil ganolbwyntio ar:**

- disgwyliadau'r cleient
- ffynonellau cynradd ac eilaidd mewn ymateb i thema '**Tutti Frutti**'
- artistiaid a dylunwyr sydd wedi defnyddio '**Tutti Frutti**' neu themâu tebyg fel eu hysbrydoliaeth a'u hysgogiad.

### **Disgwyliadau'r cleient**

Mae'n rhaid i'r gwaith rydych chi'n ei gynhyrchu ateb disgwyliadau'r cleient. Bydd y cleient eisiau gwybod sut rydych chi wedi mynd i'r afael â'r cwestiynau canlynol.

- Beth yw eich ymateb i'r thema ac i gyfyngiadau'r briff?
- Sut rydych chi wedi defnyddio eich ymchwil gynradd ac eilaidd i ddatblygu syniadau?
- Sut gwnaethoch chi ddefnyddio iaith weledol i ddatblygu eich syniadau a'ch deilliannau?
- Sut mae eich dyluniadau yn targedu'r gynulleidfa fwriadedig?
- A yw eich dyluniadau yn addas i'w diben?
- Pa ddefnyddiau, technegau a phrosesau rydych chi wedi eu dewis a'u defnyddio?
- Sut byddwch chi'n cyflwyno eich gwaith i'r cleient?

## Adnoddau

Mae'r gwefannau a'r llyfrau yn gywir adeg cyhoeddi'r papur, ond gallent newid.

## Gwefannau

<a href="http://www.actionscript.org">www.actionscript.org</a>	Adnoddau ar gyfer cyfryngau rhyngweithiol
<a href="http://www.adobe.com">www.adobe.com</a>	Meddalwedd <i>Adobe</i>
<a href="http://www.apple.com">www.apple.com</a>	Meddalwedd <i>Apple</i>
<a href="http://www.thenewartgallerywalsall.org.uk">www.thenewartgallerywalsall.org.uk</a>	<i>The New Art Gallery Walsall</i>
<a href="http://www.artchive.com">www.artchive.com</a>	Archif celf
<a href="http://www.atlasgallery.com">www.atlasgallery.com</a>	<i>Atlas Gallery</i>
<a href="http://www.bima.co.uk">www.bima.co.uk</a>	<i>British Interactive Media Association</i>
<a href="http://www.bjp-online.com">www.bjp-online.com</a>	<i>The British Journal of Photography</i> (ar gael hefyd ar ffurf cyfnodolyn)
<a href="http://www.britishmuseum.org">www.britishmuseum.org</a>	<i>The British Museum</i>
<a href="http://www.craftscouncil.org.uk">www.craftscouncil.org.uk</a>	<i>Crafts Council</i>
<a href="http://www.designmuseum.org">www.designmuseum.org</a>	<i>Design Museum</i>
<a href="http://www.fashionlive.com">www.fashionlive.com</a>	Gwybodaeth am dueddiadau a dylunwyr
<a href="http://www.fashion.net">www.fashion.net</a>	Gwybodaeth am ffasiwn o bob cwr o'r byd
<a href="http://www.fashiontrendsetter.com">www.fashiontrendsetter.com</a>	Rhagweld lliwiau a thueddiadau
<a href="http://www.flickr.com">www.flickr.com</a>	Rhannu delweddau ar-lein
<a href="http://www.guggenheim.org">www.guggenheim.org</a>	<i>The Guggenheim Museum</i>
<a href="http://www.hyperstudio.com">www.hyperstudio.com</a>	Offer creu ar gyfer dysgu trwy brosiect
<a href="http://www.metmuseum.org">www.metmuseum.org</a>	<i>The Metropolitan Museum of Art</i>
<a href="http://www.moma.org">www.moma.org</a>	<i>The Museum of Modern Art</i>
<a href="http://www.nationalgallery.org.uk">www.nationalgallery.org.uk</a>	<i>The National Gallery</i>
<a href="http://www.national-geographic-magazine.co.uk">www.national-geographic-magazine.co.uk</a>	Cylchgrawn y <i>National Geographic</i> (mae ganddo sianel deledu hefyd)
<a href="http://www.newbritishartists.co.uk">www.newbritishartists.co.uk</a>	<i>New British Artists</i>
<a href="http://www.nma.co.uk">www.nma.co.uk</a>	<i>New Media Age</i>
<a href="http://www.nmpft.org.uk">www.nmpft.org.uk</a>	<i>National Museum of Photography, Film and Television</i>
<a href="http://www.npg.org.uk">www.npg.org.uk</a>	<i>National Portrait Gallery</i>
<a href="http://www.photography.com">www.photography.com</a>	Adnoddau i ffotograffwyr



<a href="http://www.photography.nationalgeographic.com">www.photography.nationalgeographic.com</a>	Ffotograffau cylchgrawn y <i>National Geographic</i>
<a href="http://www.photonet.org.uk">www.photonet.org.uk</a>	<i>The Photographers' Gallery</i>
<a href="http://www.urban-photography.com">www.urban-photography.com</a>	Adnoddau i ffotograffwyr
<a href="http://www.popphoto.com">www.popphoto.com</a>	Gwybodaeth am artistiaid a dylunwyr tecstilau
<a href="http://www.royalacademy.org.uk">www.royalacademy.org.uk</a>	<i>Royal Academy of Arts</i>
<a href="http://www.tate.org.uk">www.tate.org.uk</a>	<i>Tate Online</i>
<a href="http://www.textilearts.net">www.textilearts.net</a>	Gwybodaeth am artistiaid a dylunwyr tecstilau
<a href="http://www.thelowry.com">www.thelowry.com</a>	<i>The Lowry Museum and Gallery</i>
<a href="http://www.vam.ac.uk">www.vam.ac.uk</a>	<i>Victoria and Albert Museum</i>
<a href="http://www.vogue.co.uk">www.vogue.co.uk</a>	Cylchgrawn <i>Vogue</i> ar-lein
<a href="http://www.webstyleguide.com">www.webstyleguide.com</a>	Adnoddau ar gyfer dylunio gwefannau

## Llyfrau

*Adobe Photoshop CS5 Classroom in a Book* (Adobe, 2010) ISBN: 9780321701763

Arato, Rona – *Design It!: The Ordinary Things We Use Every Day and the Not-So-Ordinary Ways They Came to Be* (Tundra Books, 2010) ISBN: 9780887768460

Barnard M – *Fashion as Communication* (Routledge, 2002) ISBN: 9780415260183

Berger J – *Ways of Seeing* (Penguin Books/BBC, 2008) ISBN: 9780141035796

Britt D – *Modern Art Impressionism to Post Modernism* (Thames & Hudson, 2007) ISBN: 9780500238417

Chapman N and Chapman J – *Digital Media Tools 4ydd Argraffiad Diwygiedig* (Macavon Media, 2012) ISBN: 9780956737007

Child J – *Studio Photography: Essential Skills* (Focal Press, 2008) ISBN: 9780240520964

Clement R – *Four French Symbolists* (Greenwood Press, 1996) ISBN: 9780313297526

Collings M – *This is Modern Art* (Phoenix, 2000) ISBN: 9781841881003

Davies A, Fennessy P – *Digital Imaging for Photographers Fourth Edition* (Focal Press, 2002) ISBN: 978-240515908

De Bono E – *Serious Creativity: Using the Power of Lateral Thinking to Create New Ideas* (HarperCollins, 2005) ISBN: 9781861976741

De Olivera N, Oxley N and Milhae P – *Installation in the New Millennium* (Thames & Hudson, 2004) ISBN: 9780500284513

Eastland J – *Essential Darkroom Techniques* (Cassell, 1995) ISBN: 9780304345489

Fletcher A – *The Art of Looking Sideways* (Phaidon Press Ltd, 2001) ISBN: 9780714834498

Freeman M – *The Photographer's Eye: Composition and Design for Better Digital Photos* (Focal Press, 2007) ISBN: 9780240809342

Galer M – *Photography Foundations for Art and Design* (Focal Press, 2007) ISBN: 9780240520506

Hannah, Bruce – *Becoming a Product Designer: A Guide to Careers in Design* (John Wiley & Sons, 2004) ISBN: 9780471223535

Hopkins D – *After Modern Art 1945–2000* (Oxford University Press, 2000) ISBN: 9780192842343

Hopkins D – *Dada and Surrealism* (Oxford University Press, 2004) ISBN: 9780192802545

Hughes R – *The Shock of the New: Art and the Century of Change, Revised Edition* (Thames & Hudson Ltd, 1992) ISBN: 9780070311275

Ingledeu J – *Photography (Portfolio Series)* (Laurence King, 2005) ISBN: 9781856694322

Jewitt J – *Taunton's Complete Illustrated Guide to Box Making (Complete Illustrated Guide Series)* (Taunton Press Inc, 2004) ISBN: 9781561585939

Kristian G, Schlempp-Ülker N – *Visualising Ideas* (Thames & Hudson, 2006)  
ISBN: 9780500286128

Langford M – *The Story of Photography* (Focal Press, 1998) ISBN: 9780240514833

Little S – *Isms: Understanding Art* (A&C Black Publishers Ltd, 2004) ISBN: 9780713670110

Macleod K – *Thinking Through Art: Reflections on art as research* (Routledge, 2005)  
ISBN: 9780415364782

McAlhone B and Stuart D – *A Smile in the Mind* (Phaidon, 1998) ISBN: 9780714833286

Marien-Warner M – *Photography: A Cultural History* (Laurence King, 2006)  
ISBN: 9781856694933

Peterson B – *Learning to See Creatively*, Argraffiad Diwygiedig (Amphoto Books, 2003)  
ISBN: 9780817441814

Poli F – *Post-Modern Art 1945–2008* (Collins Design, 2008) ISBN: 9780061665776

Thomas J Misa – *Leonardo to the Internet: Technology and Culture from the Renaissance to the Present* (The Johns Hopkins University Press, 2011) ISBN: 9781421401546

Tilke Max – *Costume Patterns and Designs* (Zwemmer) (D.S.: Cyhoeddwyd y llyfr hwn ym 1956 ac mae ganddo dros 200 o blatiau lliw, wedi'u lluniadu â llaw a'u lliwio, o astudiaethau bywyd o deithiau Tilke o gwmpas y byd. Dyma'r llyfr diffiniol ar wisgoedd ethnig hyd heddiw.)

Zakia R D – *Photographic Composition: A Visual Guide* (Focal Press, 2010)  
ISBN: 9780240815077